Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

22 Mehefin 2010

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn Rhoi Cefnogaeth i Ymgyrch 'Gwneud Pethau'n Iawn' Mencap

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi addo cefnogi ymgyrch genedlaethol i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn cael y safon o ofal iechyd y mae ganddynt yr hawl iddo.

Mae Wythnos Anableddau Dysgu Mencap 21-27 Mehefin 2010 yn canolbwyntio ar ***Gwneud pethau'n iawn*** ac maen nhw'n galw ar weithwyr iechyd proffesiynol i ymrwymo i siarter a fydd yn helpu i wneud gwahaniaethau mawr ac i arbed bywydau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r ymgyrch yn gryf ac wedi cynorthwyo i ddrafftio'r siarter. Cred y Bwrdd Iechyd y bydd yn gwella'r gwasanaeth y gall pobl ag anableddau dysgu ei ddisgwyl ar draws y GIG.

Dywedodd Dr Roger Banks, sy'n Feddyg Ymgynghorol mewn Seiciatreg Anableddau Dysgu yn y Bwrdd Iechyd ac sydd wedi bod yn ymwneud yn agos â'r ymgyrch: "Mae gan bawb yr hawl i'r gofal iechyd gorau posibl ar bob adeg. Mae'n gwbl annerbyniol mai nad dyma'r achos bob tro gyda phobl ag anableddau dysgu. Drwy ymrwymo i'r siarter hwn rydym yn dangos ein hymrwymiad i ddod â chamwahaniaethu yn y GIG i ben, a chymryd camau ymarferol i wella'r gofal a'r driniaeth rydym yn eu darparu."

Dyma rai o'r datblygiadau cadarnhaol sydd eisoes yn bodoli:

- Sesiynau ymwybyddiaeth i feddygon a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ar hyfforddi ac ar leoliadau ysbytai cyffredinol. Nid mater o arfer da yw hyn. Mae gan bob gweithiwr iechyd proffesiynol ddyletswydd o dan ddeddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd i wneud newidiadau rhesymol i'r ffordd y maen nhw'n trin pobl ag anableddau i sicrhau cydraddoldeb rhwng gofal a thriniaeth.

- Mae'r ffaith bod defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan yn y sesiynau hyfforddi hefyd wedi bod yn effeithiol wrth godi ymwybyddiaeth. Y mae sichrau sicrhau profiad cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaeth yn dibynnu ar ddealltwriaeth gweithwyr iechyd proffesiynol o anabledd dysgu a newid y ffordd maen nhw'n ymddwyn i gyd-fynd ag anghenion cleifion.

- Mae'r Bwrdd iechyd hefyd wedi gweithio gyda Meddygon Teulu i ennill lefel uchel o gydymffurfiad gyda gwiriadau iechyd blynyddol. Ar gyfartaledd, mae iechyd pobl ag anableddau dysgu yn wael o'i gymharu â'r boblogaeth gyfan, ac mae gwiriad iechyd blynyddol yn gyfle hanfodol i adnabod problemau na fyddid efallai yn eu canfod fel arall.

- Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i wella gwasanaethau. Mae gan deuluoedd a gofalwyr eraill rôl arbennig i'w chwarae pan fydd unigolyn ag anabledd dysgu yn mynd i'r ysbyty neu i weld y meddyg. Maen nhw'n gwybod am ymddygiad arferol yr unigolion a'r ffordd y mae well ganddynt gyfathrebu. Maen nhw'n hanfodol gan fod ganddynt wybodaeth arbenigol a allai helpu ein staff i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo hefyd i wella cyfleusterau ar gyfer teuluoedd a'u gofalwyr pan maen nhw angen dod efo'r defnyddiwr gwasanaeth i'r ysbyty ac i glinigau.

Dywedodd Mary Burrows, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: "Mae mabwysiadu'r Siarter yn ffordd wych o atgyfnerthu ein gwaith ac o godi proffil y mater. Fodd bynnag, nid ydym yn bodloni ar hynny ac rydym yn ymwybodol bod angen gwneud llawer mwy o waith i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn cael gofal iechyd amserol, ac o ansawdd uchel a diogel ym mhob lleoliad iechyd. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein rhaglenni cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac i ddarparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ymysg ein staff i gyd."

Gall y cyhoedd ddangos eu cefnogaeth i'r ymgyrch ***Gwneud pethau'n iawn*** drwy gofrestru ar
www.mencap.org.uk/gettingitright. Cynhelir Wythnos Anableddau Dysgu Mencap o 21-27 Mehefin.

Nodiadau i Olygyddion:

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Trystan Pritchard ar (01248) 38 938

Mae anabledd dysgu yn cael ei achosi gan y ffordd y mae'r ymennydd yn datblygu cyn, yn ystod ac yn syth ar ôl geni. Mae o'n gyflwr gydol oes ac yn effeithio ar ddatblygiad deallusol a chymdeithasol. Nid salwch meddwl yw anabledd dysgu.

22 June 2010

Betsi Cadwaladr University Health Board Pledges Support to Mencap's 'Get it Right' Campaign

The Betsi Cadwaladr University Health Board has pledged to support a national campaign to ensure that people with a learning disability get the level of healthcare they have a right to expect.

Getting it right is the focus of Mencap's Learning Disability Week on 21 – 27 June 2010 and calls on health professionals to commit to a charter that will help make real changes and save lives.

The Health Board is strongly supporting the campaign and has been contributed to the drafting of the charter which it believes will improve the service that people with learning disabilities can expect across the NHS.

Dr Roger Banks, Consultant in the Psychiatry of Learning Disability at the Health Board who has been closely involved with the campaign said: "Everyone has a right to the best possible healthcare at all times. The fact that this is not always the case for people with a learning disability is totally unacceptable. By signing up to this charter we are showing our commitment to end discrimination in the NHS and taking practical steps to improve the care and treatment we provide."

Some of the positive developments already in place include:

- Awareness sessions for doctors and other health professionals in training and in general hospital settings. This is not just a question of best practice. All healthcare professionals have a duty under disability discrimination legislation to make reasonable adjustments in the way they treat people with a disability to ensure equality of care and treatment.

- The involvement of service users in training sessions has also been effective in raising awareness. A positive experience for the service user depends upon healthcare professionals understanding learning disability and adjusting the way they behave to accommodate the patient's needs.

- The Health Board has also worked with GPs to achieve high levels of compliance with annual health checks. On average, people with a learning disability have much poorer health than the population as a whole and an annual health check is a vital opportunity to pick up problems that might otherwise be missed.

- Working with families and carers to improve services. Families and other carers have a special role when a person with a learning disability goes to hospital or to see the doctor. They have vital knowledge about that person's usual behaviour and how they prefer to communicate. They are indispensable in providing the

expert knowledge that can help our staff provide the best possible level of service. The Health Board is also committed to improving facilities for families and carers when they need accompany the service user to hospitals and clinics.

Mary Burrows, Chief Executive of the Betsi Cadwaladr University Health Board said: “Adopting the Charter is a great way of consolidating our work and raising the profile of the issues. We are not complacent however and are aware that there is much more work to be done to ensure access to timely and high quality and safe health care for people with learning disabilities across all health settings. We will continue to develop our equality and diversity programmes, provide comprehensive training and raise awareness among all of our staff.”

The public can show their support for the ***Getting it right*** campaign by signing up at **www.mencap.org.uk/gettingitright**. Mencap’s Learning Disability Week in 2010 runs from 21–27 June.

Notes to Editors:

For more information, contact Trystan Pritchard on (01248) 384 938

A learning disability is caused by the way the brain develops before, during or shortly after birth. It is always lifelong and affects someone’s intellectual and social development. Learning disability is not a mental illness.